# Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr, Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf Morgannwg, Heddlu De Cymru

## Adroddiad ar yr Adolygiad ar y Cyd gan Arolygiaethau o Drefniadau Amddiffyn Plant

Mehefin 2023

© Hawlfraint y Goron 2023 WG48304 ISBN digidol 978-1-83504-509-1

## Cyflwyniad

Rhwng 12 ac 16 Mehefin 2023, cynhaliodd Arolygiaeth Gofal Cymru (AGC), Arolygiaeth Cwnstabliaeth a Gwasanaethau Tân ac Achub ei Fawrhydi (HMICFRS), Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) ac Estyn arolygiad ar y cyd o'r ymateb amlasiantaeth i achosion o gam-drin ac esgeuluso plant ym Mhen-y-bont ar Ogwr.

Mae'r adroddiad hwn yn amlinellu ein canfyddiadau am effeithiolrwydd trefniadau gweithio mewn partneriaeth a gwaith asiantaethau unigol ym Mhen-y-bont ar Ogwr.

**Cwmpas yr arolygiad**

Fel rhan o'r Adolygiad ar y Cyd gan Arolygiaethau o Drefniadau Amddiffyn Plant (JICPA), adolygwyd y canlynol:

- yr ymateb i honiadau o gamfanteisio ac esgeulustod ar yr adeg y cânt eu nodi
- ansawdd ac effaith gwaith asesu, cynllunio a gwneud penderfyniadau mewn ymateb i hysbysiadau ac atgyfeiriadau
- y trefniadau ar gyfer amddiffyn plant 11 oed ac iau sy'n wynebu risg o gael eu cam-drin neu eu hesgeuluso
- y trefniadau ar gyfer arwain a rheoli'r gwaith hwn
- effeithiolrwydd trefniadau partneriaid diogelu amlasiantaethol mewn perthynas â'r gwaith hwn

Rydym wedi ceisio defnyddio iaith syml i ddisgrifio canfyddiadau'r arolygiad ar y cyd. Crybwyllir nifer o dermau a ddisgrifir isod:

- CBS neu ALl Pen-y-bont ar Ogwr - Cyngor Bwrdeistref Sirol neu Awdurdod Lleol Pen-y-bont ar Ogwr
- CAMHS - Gwasanaethau Iechyd Meddwl Plant a'r Glasoed
- CAGCh -Cynllun Amddiffyn Gofal a Chymorth
- AYPau - Adolygiadau Ymarfer Plant
- CRISP - Y Protocol ar gyfer Pryderon o ran Ymarfer Diogelu Rhyngasiantaethol
- BDCTM - Mae Bwrdd Diogelu Cwm Taf Morgannwg yn bartneriaeth statudol sy'n cynnwys yr asiantaethau sy'n gyfrifol am ddiogelu plant ac oedolion sy'n wynebu risg yn ardal Cwm Taf Morgannwg.
- BIPCTM - Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf Morgannwg
- DBS - Y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd
- ADD - Arweinydd Diogelu Dynodedig yw'r unigolyn a gaiff ei benodi i fod yn bennaf cyfrifol am faterion amddiffyn plant mewn ysgolion.
- HATD - Hysbysiadau Atal Trais Domestig
- TYA - Y Tîm Ymgysylltu ag Addysg
- AAB - Adran Achosion Brys

- ELSA - Rhaglen ymyriadau cymdeithasol ac emosiynol a gaiff ei chyflwyno gan staff hyfforddedig mewn ysgolion cynradd ac ysgolion uwchradd yw Cynorthwyydd Cymorth Llythrennedd Emosiynol.
- CSE - Cofnod Staff Electronig yn y bwrdd iechyd
- YRH - Ystafell Reoli'r Heddlu
- IAA - Gwybodaeth, Cyngor a Chymorth
- IDVA - Cynghorwyr Trais Domestig Annibynnol sy'n rhoi help a chymorth i ddioddefwyr trais domestig.
- IRO - Swyddogion Adolygu Annibynnol
- MARAC - Cynadleddau Asesu Risg Amlasiantaeth yw Cynadleddau MARAC. Maent yn gyfarfodydd rheolaidd rhwng gweithwyr proffesiynol a gynhelir er mwyn trafod sut i helpu unigolion sy'n wynebu'r risg fwyaf o niwed o ganlyniad i drais neu gam-drin domestig.
- MASH- Hwb Diogelu Amlasiantaeth
- MIU - Uned Mân Anafiadau
- Ymgyrch Encompass - Mae Ymgyrch Encompass yn bartneriaeth rhwng yr heddlu ac ysgolion. Dim ond os bydd yr heddlu lleol eisoes wedi ymaelodi ag Ymgyrch Encompass y gall ysgol ymuno. Un o egwyddorion Ymgyrch Encompass yw y dylid rhannu pob digwyddiad lle ceir achos o gam-drin domestig ag ysgolion, nid dim ond y digwyddiadau hynny lle y gellir nodi trosedd.
- HAC - Hysbysiadau Amddiffyn y Cyhoedd
- CGC - Ystafell reoli'r heddlu yw'r Ganolfan Gwasanaethau Cyhoeddus.
- UCD - Mae unedau cyfeirio disgyblion yn cynnig addysg i ddisgyblion ag anawsterau cymdeithasol, emosiynol a/neu ymddygiadol. Gall y disgyblion hynny fynychu'r unedau hyn am gyfnodau byr, hyd at 12 wythnos fel arfer. Byddant yn cael cymorth i reoli eu hemosiynau/ymddygiad ac i ailintegreiddio i addysg brif ffrwd.
- PRUDIC - Ymateb Gweithdrefnol i Farwolaeth Annisgwyl yn ystod Plentyndod.
- HDC - Heddlu De Cymru
- RSB - Bwrdd Diogelu Rhanbarthol
- Adran 47 (A47) - O dan Adran 47 o Ddeddf Plant 1989, mae gan awdurdod lleol ddyletswydd i ymchwilio os ymddengys fod plentyn yn ei ardal yn dioddef niwed sylweddol neu'n wynebu risg o hynny.
- SoS - Dull o ymdrin ag ymarfer amddiffyn plant yw Arwyddion Diogelwch sy'n seiliedig ar gydberthnasau ac wedi'i drefnu yn unol â diogelwch. Fe'i crëwyd drwy ymchwilio i'r hyn sy'n gweithio i weithwyr proffesiynol a theuluoedd wrth ddatblygu diogelwch ystyrlon i blant sy'n agored i niwed ac yn wynebu risg.
- TAS - Nod model y Tîm o Amgylch yr Ysgol yw helpu ysgolion i nodi a chefnogi teuluoedd yn gynt pan fydd yr angen yn codi drwy gydweithio â phartneriaid allweddol

- THRIVE - Bygythiad, niwed, risg, ymchwilio, agored i niwed ac ymgysylltu ('threat, harm, risk, investigation, vulnerability and engagement' yn Saesneg). Model a ddefnyddir i asesu'r ymateb cychwynnol priodol gan yr heddlu pan geir cais am wasanaeth.
- WSP - Mae Gweithdrefnau Diogelu Cymru yn nodi rolau a chyfrifoldebau hanfodol ymarferwyr er mwyn sicrhau eu bod yn diogelu plant ac oedolion sy'n wynebu risg o gael eu cam-drin a'u hesgeuluso.

## 1. Crynodeb

Yn yr un modd â llawer o ardaloedd ledled Cymru, mae recriwtio a chadw aelodau allweddol o staff yn effeithio ar drefniadau diogelu plant. Mae lefelau uchel o alw a chymhlethdod cynyddol anghenion plant a theuluoedd yn ychwanegu at hyn. Mae sefyllfa'r gweithlu gwasanaethau cymdeithasol dal yn fregus. Mae prinder gweithwyr cymdeithasol a marchnad gystadleuol wedi arwain at fwy o ddibyniaeth ar weithwyr cymdeithasol o asiantaethau.

Er gwaethaf y cyd-destun hwn, yn gyffredinol mae systemau a chydberthnasau ar waith i hwyluso gwaith partneriaeth effeithiol os yw plentyn yn wynebu risg o gael ei gam-drin a'i esgeuluso. Mae partneriaid yn gweithio'n unol ag ethos a rennir o ddiogelu plant ar lefelau gwahanol o fod yn agored i niwed. Mae'r uwch-arweinwyr yn yr awdurdod lleol, yr heddlu a'r bwrdd iechyd wedi cyfleu gweledigaeth a rennir a dulliau gweithredu cadarnhaol mewn perthynas â threfniadau diogelu rhanbarthol. Mae rheolwyr ac arweinwyr yn darparu diwylliant o gydweithio cadarnhaol. Mae'r awdurdod lleol wedi cymryd camau i roi'r gwersi a ddysgwyd yn dilyn digwyddiadau critigol diweddar ar waith. Caiff y cynlluniau gwella a'r cynlluniau gweithredu ar y cyd a ddeilliodd o hynny eu goruchwylio gan Fwrdd Diogelu Rhanbarthol Cwm Taf Morgannwg (BDCTM).

O'r sampl o gofnodion a welsom fel rhan o'r arolygiad, nid oedd unrhyw bryderon gennym o ran diogelwch plant. Ar y cyfan, mae'r camau gweithredu yn cael eu rhoi ar waith o fewn y terfynau amser ac mae cymorth a chamau amddiffyn ar waith i ddiwallu anghenion. Fodd bynnag, mae rhai agweddau ar amddiffyn plant sy'n anghyson ac y mae angen rhoi sylw iddynt. Mae'r gweithwyr proffesiynol yn gwneud atgyfeiriadau priodol ond mae'r asiantaethau partner, fel yr heddlu a'r gwasanaethau iechyd, yn ei chael hi'n anodd darparu'r adnoddau i gynyddu'r gweithgarwch amddiffyn plant. Mae heriau o hyd wrth rannu gwybodaeth rhwng asiantaethau yn yr Hwb Diogelu Amlasiantaeth (MASH). Rhagwelir y bydd llwyfan TG newydd yn ymdrin â hyn.

Caiff camau eu cymryd ar unwaith i hyrwyddo diogelwch plant ond gall fod bylchau yn dilyn ymchwiliad Adran 47 (A47). Yn gyffredinol, mae'r trefniadau adborth ar ôl ymchwiliad (gan gynnwys ymchwiliadau asiantaeth unigol a gynhelir yn aml drwy'r gwasanaethau plant) yn cynnwys y gwasanaethau cymdeithasol a'r heddlu. Caiff y

trefniadau hyn eu rhoi ar waith drwy e-bost fel arfer ac nid yw'r broses yn cynnwys partneriaid perthnasol a oedd yn rhan o'r drafodaeth strategaeth gychwynnol. O ganlyniad, mae'n bosibl bod cyfle yn cael ei golli i rannu gwybodaeth hanfodol ac i drafod canlyniad yr ymchwiliad. Ceir gormod o amrywiaeth o ran ansawdd y cynlluniau amddiffyn gofal a chymorth (CAGCh). Mae'r canlyniadau yn canolbwyntio ar yr oedolyn yn hytrach na'r plentyn, ac ni chaiff unrhyw ganlyniadau clir eu nodi ar gyfer y plentyn. Mae bylchau yn y trefniadau cofnodi a goruchwylio y mae angen ymdrin â nhw drwy brosesau goruchwylio gan y rheolwyr a thrwy roi ffocws ar ansawdd yr ymarfer.

Mae ysgolion ledled Pen-y-bont ar Ogwr yn gweithio'n dda gydag amrywiaeth eang o wasanaethau i gefnogi plant a theuluoedd. Ceir presenoldeb a chyfranogiad amlasiantaeth da mewn cyfarfodydd amddiffyn plant a drefnir o dan Weithdrefnau Diogelu Cymru. Mae hyn yn cynnwys cynadleddau achos amddiffyn plant cychwynnol a chynadleddau adolygu achos amddiffyn plant, yn ogystal â grwpiau craidd. Mae MASH yn hwyluso cydymffurfiaeth â Gweithdrefnau Diogelu Cymru ac yn annog partneriaethau i gydweithio'n agos. Mae cyfraniad amlasiantaeth yn amlwg wrth ymdrin â diogelwch plant drwy'r cynllun amddiffyn gofal a chymorth.

## 2. Canfyddiadau allweddol a thystiolaeth

## 2.1 Llesiant

**Trefniadau Partneriaeth**

Mae'r enghreifftiau gorau o ymarfer amddiffyn plant yn digwydd ym Mhen-y-bont ar Ogwr pan fo pawb yn deall niwed sylweddol. Ceir tystiolaeth o gyswllt clir rhwng y niwed hwn a'r effaith ar y plentyn. Caiff risgiau gwirioneddol a risgiau posibl eu nodi'n dda a chaiff camau gweithredu cymesur eu cymryd i amddiffyn plant. Mae'r cofnodion amddiffyn plant hyn yn dangos dull clir sy'n seiliedig ar gryfderau ond yn sicrhau ar yr un pryd bod y CAGCh yn nodi cyswllt clir rhwng risg a diogelwch. Mae gweithwyr proffesiynol yn nodi plant y mae angen help a threfniadau amddiffyn arnynt ac yn rhoi gwybod yn briodol am eu pryderon. Mae hyn yn bwysig, gan ei fod yn galluogi penderfyniadau prydlon a chywir i gael eu gwneud ar gam cynnar. Yn gyffredinol, mae atgyfeiriadau gan bartneriaid at y gwasanaethau plant yn darparu manylion perthnasol ond mae mesurau ar waith i wella eu hansawdd. Mae'r MASH yn canolbwyntio ar gasglu gwybodaeth o ansawdd da gan atgyfeirwyr er mwyn gallu gwneud penderfyniadau cadarn.

Mae cyfarfodydd strategaeth a chynadleddau amddiffyn plant yn fforymau effeithiol i rannu gwybodaeth, cynllunio a gwneud penderfyniadau. Ceir lefelau presenoldeb da gan grwpiau amlasiantaeth. Mae'r cynadleddau wedi'u strwythuro'n dda a chânt eu hwyluso drwy sgyrsiau cydweithredol â rhieni/gofalwyr, gan gynnal ffocws ar risg a diogelwch.

Mae enghreifftiau o'r awdurdod lleol a phartneriaid yn ymateb yn brydlon ac yn effeithiol i ddiwallu anghenion plant, yn enwedig pan nodir bod angen a risg acíwt. Er enghraifft, gwelsom asiantaethau yn trefnu cyfarfodydd strategaeth ac ymweliadau â phlant ar fyr rybudd er mwyn sicrhau eu lles. Yn gyffredinol, roedd gan y gwaith cynllunio dilynol bwyslais penodol ac roedd yn seiliedig ar brosesau cadarn ar gyfer cyfnewid gwybodaeth rhwng asiantaethau.

Nid yw'r ymarferwyr sy'n rhoi gwybod am bryderon diogelu yn cael eu hysbysu'n gyson am ganlyniad eu hatgyfeiriad a'r rhesymau dros y penderfyniadau a wnaed yn deillio ohono. Ceir oedi wrth rannu cofnodion cyfarfodydd strategaeth, er bod y camau gweithredu perthnasol yn cael eu rhannu ar unwaith. Mae hyn yn faes i'w ddatblygu er mwyn sicrhau cysondeb â'r disgwyliadau a nodir yng Ngweithdrefnau Diogelu Cymru.

Mae angen atgyfnerthu digonolrwydd yr adnoddau sydd ar gael i asiantaethau partner er mwyn sicrhau y caiff cyfrifoldebau diogelu eu cyflawni'n gyson ac er mwyn hyrwyddo llesiant y staff. Mae'r awdurdod lleol wedi ymateb i'r galw digynsail drwy fuddsoddi mewn gweithwyr asiantaeth ychwanegol y tu hwnt i'r nifer a ariennir ganddo fel arfer er mwyn cyflawni dyletswyddau statudol. Er bod angen yr adnodd ychwanegol hwn ar hyn o bryd, mae'n effeithio ar allu asiantaethau eraill i ymateb yn gyson ac yn effeithiol i weithgarwch, er enghraifft y cynnydd o ran nifer y cyfarfodydd strategaeth.

**Cryfderau**

**Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf Morgannwg**

Ceir cyfathrebu da rhwng aelodau tîm diogelu'r bwrdd iechyd a staff sy'n gweithio'n uniongyrchol gyda phlant. Mae nyrsys amddiffyn y cyhoedd sydd wedi'u lleoli yn y MASH yn rhoi cyngor i staff Cwm Taf Morgannwg (CTM) er mwyn cefnogi trothwy cyson ar gyfer atgyfeiriadau. Caiff copi o bob atgyfeiriad gan staff iechyd ei anfon i'r tîm diogelu er gwybodaeth ac er mwyn ymgymryd â gwaith sicrhau ansawdd. Mae model hyrwyddo diogelu wrthi'n dechrau cael ei ddatblygu. Rhagwelir y bydd hyrwyddwyr, a fydd yn ymgymryd â hyfforddiant diogelu ychwanegol ac yn gweithredu fel pwynt cyswllt cyntaf o fewn adrannau, yn darparu haen ychwanegol o gyngor a chymorth i aelodau o staff ym mhob rhan o'r bwrdd iechyd, yn enwedig y tu allan i oriau pan na fydd y tîm diogelu ar gael. Roedd yr adroddiadau amddiffyn plant a welwyd fel rhan o'r arolygiad hwn yn amserol ac yn briodol.

Mae nyrsys amddiffyn y cyhoedd yn cydgysylltu'r gwaith o gasglu gwybodaeth iechyd, yn gwahodd gweithwyr iechyd proffesiynol perthnasol ac yn hwyluso'r trefniadau ar gyfer mynychu cyfarfodydd strategaeth. Lle bo'r pryderon yn ymwneud ag achos lle yr amheuir nad yw anaf yn ddamweiniol, bydd pediatregydd neu nyrs glinigol sy'n arbenigo ym maes diogelu hefyd yn bresennol. Mae'r hwb diogelu yn cynnig archwiliadau meddygol amddiffyn plant i blant dros 1 oed, yn ystod oriau gwaith arferol, mewn amgylchedd sy'n canolbwyntio ar y plentyn. Ar y cyfan, caiff

adroddiadau meddygol amddiffyn plant eu cynhyrchu mewn modd amserol, cânt eu rhannu â'r gweithwyr proffesiynol priodol ac maent yn darparu naratif clir ynghylch a yw'r anafiadau yn rhai a wnaed yn fwriadol. Mae'n gadarnhaol bod yr adroddiadau yn nodi meysydd ychwanegol o niwed y gallai'r plant fod yn eu hwynebu, fel esgeulustod a cham-drin emosiynol. Ceir lefelau presenoldeb da yn y cyfarfodydd adolygu cymheiriaid misol ac maent yn cynnig man dysgu cefnogol a myfyriol i bediatregwyr o bob rhan o'r bwrdd iechyd drafod archwiliadau meddygol amddiffyn plant.

Rhoddir blaenoriaeth i les y staff, ac mae'r bwrdd iechyd wedi rhoi gwasanaeth llesiant ar waith. Mae hyn yn cynnwys Cynghorwyr Trais Domestig Annibynnol (IDVA) a all roi cymorth i aelodau o staff sy'n dioddef achosion o gam-drin domestig. Ceir cymorth hefyd drwy'r trydydd sector pan gaiff y staff eu gwahodd i fynychu cyfarfodydd Ymateb Gweithdrefnol i Farwolaeth Annisgwyl yn ystod Plentyndod (PRUDIC). Mae model cyfunol o sesiynau goruchwylio grŵp a sesiynau goruchwylio 1:1 ar waith. Nid oes sesiynau goruchwylio ffurfiol rheolaidd ar gael i rai grwpiau o staff, er enghraifft y gwasanaethau iechyd meddwl plant a'r glasoed (CAMHS), ond gellir trefnu sesiynau goruchwylio ad-hoc yn ddigon hawdd ar gyfer sefyllfaoedd cymhleth.

**Addysg**

Mae gwasanaeth addysg yr awdurdod lleol yn hyrwyddo diwylliant diogelu cadarn yn ei ysgolion ac yn yr uned cyfeirio disgyblion (UCD). Mae'r uwch-arweinwyr yn rhoi cymorth cadarn i arweinwyr ysgolion er mwyn sicrhau eu bod yn rhoi blaenoriaeth i ddatblygiad emosiynol a llesiant disgyblion.

Mae'r awdurdod lleol yn rhoi cymorth ac arweiniad rheolaidd, cynhwysfawr a pherthnasol i ysgolion mewn perthynas â materion diogelu. Mae hyn yn cynnwys polisi diogelu enghreifftiol a chymorth o ran rheoli ymddygiad heriol. Ceir cyfleoedd rheolaidd a buddiol i'r arweinwyr diogelu dynoedig (ADD) gyfarfod fel rhan o fforwm i drafod materion, gwrando ar siaradwyr a rhannu'r gwersi a ddysgwyd ac arferion da â chydweithwyr. Yn ddiweddar, cyflwynodd swyddogion addysg strategaeth i'r awdurdod cyfan er mwyn gwella presenoldeb ym mhob un o'i ysgolion. Mae cyfraddau presenoldeb ym Mhen-y-bont ar Ogwr ar hyn o bryd yn is na'r hyn a welwyd cyn pandemig COVID-19, yn enwedig presenoldeb grwpiau penodol o ddysgwyr sy'n agored i niwed. Mae hyn yn adlewyrchu'r darlun cenedlaethol. Mae ysgolion wedi chwarae rhan weithredol wrth gefnogi strategaeth yr awdurdod lleol a chaiff ffilm a grëwyd o dan arweiniad disgyblion sy'n tynnu sylw at bwysigrwydd lefelau presenoldeb da ei rhannu'n helaeth o fis Medi.

Mae ysgolion yn rhoi pwyslais uchel iawn ar lesiant a diogelwch disgyblion. Mae athrawon yn cynllunio gweithgareddau defnyddiol i addysgu'r disgyblion am bwysigrwydd cydberthnasau iach a diogel, gan gynnwys sut i aros yn ddiogel ar-lein. Roedd y disgyblion ym mhob un o'r ysgolion y gwnaethom ymweld â nhw yn teimlo'n hapus ac yn ddiogel, yn nodi eu bod yn cael gofal da a bod y staff yn gwrando

arnynt. Cawsom enghreifftiau perthnasol ganddynt o sut roedd staff yr ysgol yn eu cadw'n ddiogel ac yn meithrin eu dealltwriaeth o iechyd emosiynol a meddyliol cadarnhaol.

Mae ysgolion yn nodi eu bod yn cael cymorth a chyngor gwerthfawr gan MASH wrth atgyfeirio pryderon newydd. Mae staff ysgolion yn teimlo eu bod yn cael eu clywed ac y gallant herio penderfyniadau. Mae llawer o ysgolion yn nodi bod asiantaethau perthnasol yn yr awdurdod lleol yn mynd ati i rannu gwybodaeth â nhw pan fydd angen gwneud hynny. Caiff ysgolion eu cynrychioli'n effeithiol mewn amrywiaeth eang o gyfarfodydd amlasiantaethol.

Mae swyddogion addysg yr awdurdod lleol yn cefnogi ysgolion yn dda drwy ddarparu amrywiaeth eang o hyfforddiant i'r staff. O ganlyniad, mae llawer o ysgolion yn rhoi ymyriadau a dulliau gweithredu effeithiol ar waith i ddiwallu anghenion disgyblion sy'n agored i niwed,  gan gynnwys y rhai sy'n wynebu risg o niwed ac sy'n destun cynlluniau amddiffyn gofal a chymorth. Mae'r rhain yn cynnwys ymyriadau iechyd emosiynol fel ymyriadau Cynorthwywyr Cymorth Llythrennedd Emosiynol (CCLIE), sesiynau ymwybyddiaeth ofalgar a mabwysiadu strategaethau sy'n ystyriol o drawma i'r ysgol gyfan er mwyn ymdrin â disgyblion sydd wedi cael profiadau niweidiol yn ystod plentyndod. Mae arweinwyr ysgolion yn rhoi ffocws sylweddol ar feithrin cydberthnasau cadarnhaol a chefnogol â theuluoedd agored i niwed. Mae llawer o ysgolion yn cyflogi eu hymarferwyr llesiant neu swyddogion cyswllt teulu eu hunain er mwyn cefnogi'r agwedd hon.

**Heddlu De Cymru**
Mae gan yr heddlu brosesau da ar waith i nodi troseddau mewn atgyfeiriadau ac i gofnodi'r rhain ar ei systemau fel y gellir eu dyrannu er mwyn ymchwilio iddynt. Caiff baneri a marcwyr rhybuddio eu defnyddio mewn ffordd gyson i dynnu sylw at blant agored i niwed ar gynlluniau amddiffyn plant. Mae swyddogion ateb galwadau yn y Ganolfan Gwasanaethau Cyhoeddus yn defnyddio'r baneri a'r marcwyr hyn i nodi plant agored i niwed yn gyflym ac i asesu lefel y risg gan ddefnyddio adnodd asesu risg THRIVE i lywio'r math o ymateb i ddigwyddiad. Gallant weld y wybodaeth ddiweddaraf sydd ar gael ar systemau'r heddlu ar unwaith. Yn ogystal â'u helpu i wneud penderfyniadau, mae hyn yn rhoi'r wybodaeth angenrheidiol i staff rheng flaen i gefnogi eu hymateb.

Caiff atgyfeiriadau eu trafod yn brydlon rhwng yr heddlu a'r gwasanaethau cymdeithasol a chaiff y canlyniadau priodol eu cofnodi. Caiff camau cychwynnol eu cymryd ar unwaith, a chaiff unrhyw risgiau sy'n gysylltiedig â phlant nad oeddent yn bresennol ar adeg y digwyddiad ei hun eu hystyried. Mae'r heddlu yn bartneriaid gweithredol mewn cyfarfodydd strategaeth a chynadleddau amddiffyn plant cychwynnol. Yn gyffredinol, gwelsom dystiolaeth o wasanaethau ymatebol i ymdrin â risgiau. Mae hyn yn cynnwys ymweliadau ar y cyd a chyfarfodydd strategaeth dilynol pan ddaw gwybodaeth newydd i'r amlwg.

Weithiau bydd swyddogion sy'n mynychu digwyddiadau yn siarad â'r plant ac yn recordio llais y plentyn. Maent yn rhannu gwybodaeth â'r awdurdod lleol yn briodol gan ddefnyddio Hysbysiadau Amddiffyn y Cyhoedd (HAC). Mae'r heddlu hefyd yn rhannu gwybodaeth fel rhan o Ymgyrch Encompass, er mwyn rhybuddio partneriaid diogelu am blant sydd wedi bod yn dyst i achosion o gam-drin domestig. Gwelsom enghreifftiau o hyn yn digwydd hyd yn oed pan nad oedd plentyn yn bresennol yn y digwyddiad ei hun, sy'n ymarfer da yn ein barn ni.

**Gwasanaethau Plant**

Ar y cyfan, mae'r gwasanaethau plant yn cyflawni dyletswyddau statudol yn unol â gofynion Gweithdrefnau Diogelu Cymru. Gwelsom enghreifftiau effeithiol o rannu gwybodaeth yn y gwasanaeth Gwybodaeth, Cyngor a Chymorth ac yn MASH. Mae gweithwyr asiantaeth ychwanegol yn helpu gydag atgyfeiriadau sgrinio mewn modd amserol ac wrth roi camau diogelu sydd eu hangen ar unwaith ar waith. Yn gadarnhaol, fel rhan o'r broses sgrinio, caiff hawliau pobl eu hystyried drwy ofyn iddynt roi cydsyniad a thrwy sicrhau bod tystiolaeth o'r cydsyniad hwnnw ar gael.

Caiff arwyddion o risgiau penodol i blant unigol eu cydnabod ac yn ystod y cyfarfod strategaeth cychwynnol, ystyrir a oes angen ymchwiliad A47 unigol neu ar y cyd. Mae ymchwiliadau A47 yn cynnwys prosesau ar gyfer ystyried brodyr a chwiorydd neu blant eraill a allai ddod i gysylltiad â phobl sy'n peri risg iddynt.

Caiff plant eu gweld mor aml ag sydd ei angen gan eu gweithwyr, yn unol â lefel eu hanghenion neu'r risgiau. Ar lefel unigol, mae'r gweithwyr yn holi am ddymuniadau a theimladau'r plant drwy ddefnyddio adnoddau ymarfer sy'n canolbwyntio ar y plentyn mewn ffordd gadarnhaol. Yn yr enghreifftiau gorau, mae canlyniad y gwaith hwn yn llywio ansawdd y gwaith dadansoddi risg a'r ffactorau sy'n gysylltiedig â theulu a chymuned y plentyn a all helpu i'w gadw'n ddiogel. Mae'r arferion hyn yn cael effaith gadarnhaol ar ganlyniadau i blant a theuluoedd.

O ran y plant hynny sydd ar y gofrestr amddiffyn plant, caiff ymweliadau statudol eu cynnal gan fwyaf ar gyfnodau sy'n cydymffurfio â gofynion Gweithdrefnau Diogelu Cymru. Pan ymwelir â'r plant, ceir tystiolaeth i ddangos na chânt eu gweld ar eu pen eu hunain neu, os na cheir tystiolaeth o'r fath, cofnodir rhesymeg, ac mae tystiolaeth o ymarferwyr yn arsylwi ar eu hymddygiad a'r rhyngweithio rhyngddynt ac aelodau'r teulu yn llywio'r broses o ddadansoddi eu hamgylchiadau.

**Yr hyn y mae angen ei wella**

**Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf Morgannwg**

Yn sgil y cynnydd sylweddol yn nifer yr atgyfeiriadau a'r cyfarfodydd strategaeth a phrinder nyrsys amddiffyn y cyhoedd i fodloni'r galw cynyddol hwn, caiff rhai cyfarfodydd strategaeth eu cynnal heb wybodaeth iechyd neu heb fod gweithwyr iechyd proffesiynol perthnasol yn bresennol. Fodd bynnag, caiff cyfarfodydd pellach i

rannu gwybodaeth eu trefnu lle bo angen. Gall fod yn anodd cael gafael ar gyngor amserol oherwydd y galw.

Er bod y broses o reoli anafiadau yr amheuir iddynt gael eu gwneud yn fwriadol yn gweithredu'n gyson yn ystod oriau gwaith arferol, nid oedd gan staff gymaint o hyder yn y prosesau amlasiantaeth y tu allan i oriau. Nid oedd yr ymateb gan y timau gwaith cymdeithasol y tu allan i oriau bob amser yn sicrhau y gellid gwneud penderfyniadau amserol. Er i ni weld rhai enghreifftiau lle y gofynnodd gweithwyr cymdeithasol i feddygon teulu weld plant ag anafiadau yr amheuwyd iddynt gael eu gwneud yn fwriadol, cawsom wybod nad oedd y drefn hon yn digwydd fel mater o drefn a bod meddygon teulu fel arfer yn hyderus wrth herio ceisiadau o'r fath.

Nid oedd elfen amddiffyn plant y ffurflen bediatrig a oedd yn cael ei defnyddio ar gyfer pob plentyn a oedd yn dod i adran achosion brys y bwrdd iechyd yn Ysbyty Tywysoges Cymru bob amser yn cael ei chwblhau, a oedd yn golygu na fyddai gweithiwr cymdeithasol plentyn o reidrwydd yn cael gwybod bod y plentyn wedi dod i'r adran. At hynny, ym mhob rhan o'r bwrdd iechyd, nid oes modd gweld y gofrestr amddiffyn plant. Mae staff yn gwneud ymholiadau ond maent yn nodi weithiau nad ydynt yn cael ymateb ac, oherwydd pwysau gwaith, nad ydynt bob amser yn dyfalbarhau. Mae'r awdurdod lleol wedi rhoi mesurau ar waith i ymdrin â hyn, drwy roi mynediad i aelod penodedig o staff y bwrdd iechyd i'w system cofnodion cyfrifiadurol, ond ar hyn o bryd, nid yw'r trefniant hwn yn unol â Gweithdrefnau Diogelu Cymru.

Fel arfer, mae'r gwasanaeth nyrsio ysgolion yn tynnu'n ôl o brosesau amddiffyn plant ar ôl cynhadledd amddiffyn plant cychwynnol os na fydd unrhyw anghenion iechyd amlwg. Fodd bynnag, nodwyd gennym fod y broses o bennu anghenion iechyd fel arfer yn seiliedig ar adolygiad o'r wybodaeth iechyd sydd wedi'i chofnodi ar systemau cyfrifiadurol y bwrdd iechyd ac yn aml nad yw'n cynnwys unrhyw ymdrechion i siarad â'r plentyn na'i riant/gofalwr. Mae angen i'r gwasanaeth nyrsio ysgolion ddod o hyd i gyfleoedd i sicrhau y caiff llais y plentyn neu'r person ifanc ei glywed drwy gydol y broses amddiffyn plant.

**Addysg**

Nid yw'r ffordd y caiff gwasanaethau cymorth, fel y gwasanaeth lles addysg, eu dosbarthu ar draws ysgolion bob amser yn adlewyrchu lefel angen na chyd-destun ysgolion unigol. Yn ogystal, er bod y cymorth a roddir drwy hybiau help cynnar yr ardal i ysgolion yn gadarn, nid yw'r trefniant hwn yn addas ar gyfer darparwyr y mae eu disgyblion yn byw ledled yr awdurdod cyfan. Mae hyn oherwydd y gall fod angen i staff ymgysylltu â gormod o wahanol weithwyr proffesiynol. Fodd bynnag, mae'r awdurdod lleol yn dechrau cynllunio mewn ffordd fwy strategol i nodi anghenion penodol ac i ddyrannu adnoddau a gwasanaethau yn unol â hynny.

**Heddlu De Cymru**
Nid oes digon o adnoddau ar gael i dimau MASH ac mae llawer o swyddi gwag. Mae hyn wedi cael effaith andwyol ar rai prosesau cydweithio, er enghraifft, sgrinio atgyfeiriadau. Mae problemau cysylltedd sylweddol yn effeithio ar systemau cyfrifiadurol yr heddlu yn MASH weithiau.

Nid yw'r ymchwiliadau i droseddau esgeuluso a cham-drin plant bob amser yn cael eu cynnal gan arbenigwyr a all olygu bod swyddogion amhrofiadol yn ymdrin â rhai achosion. Gwelsom rai enghreifftiau o'r effaith yr oedd hyn yn ei chael, lle y cafodd galwadau a oedd yn ymwneud â phlant ymateb gwael, gan arwain at gau'r achos gan nodi bod yr achos wedi'i ddatrys heb gynnal ymchwiliad priodol.

Mae trefniadau'r heddlu ar gyfer cofnodi manylion ethnigrwydd yn parhau'n wael ac yn anghyson. Mae'r heddlu yn ymwybodol o'r broblem hon, ond nid yw wedi ymdrin â hi. O ganlyniad, collwyd cyfle ar lefel unigol i ddeall hunaniaeth y plentyn ac i gasglu gwybodaeth mewn ffordd strategol a allai helpu i lywio'r broses o ddarparu gwasanaethau. Mae'r broses o gofnodi ethnigrwydd hefyd yn faes i'w wella yn y gwasanaethau cymdeithasol.

Wrth ymateb i deuluoedd sy'n wynebu risg o gam-drin domestig, gwelsom swyddogion yn ystyried rhoi hysbysiadau atal trais domestig (HATD) i droseddwyr. Mae'r gorchmynion hyn yn gam cadarnhaol i ddiogelu teuluoedd agored i niwed. Fodd bynnag, nid yw'r cynllun datgelu trais domestig (y cyfeirir ato hefyd fel Cyfraith Clare) bob amser yn cael ei ddeall yn llawn na'i roi ar waith yn llawn mewn modd amserol, sy'n golygu nad yw dioddefwyr a phlant yn cael y wybodaeth gywir pan fo'i hangen.

**Gwasanaethau Plant**
Mae angen gwella'r broses o gofnodi'r cryfderau a'r ffactorau amddiffynnol ym mywydau plant. Ar adeg yr arolygiad, ni welsom effaith y polisi cofnodi a lansiwyd yn ddiweddar yn y cofnodion a welsom. Nid oes digon o dystiolaeth sy'n mesur cynnydd yn y cynlluniau amddiffyn gofal a chymorth. Mae rhai cofnodion yn cynnwys genogramau a chronolegau, ond nid yw pob cronoleg yn gyfredol. Yn unol ag arolygiad gwerthuso perfformiad AGC dyddiedig mis Mai 2022, pan fydd plant unigol yn rhan o grŵp o frodyr a chwiorydd, rhaid bod yn ofalus na chaiff eu lleisiau a'u profiadau bywyd unigol eu colli. Mae ansawdd ymarfer a gwaith cofnodi yn amrywio gormod ar draws timau o hyd. Mae'r awdurdod lleol wedi dechrau rhoi'r model Arwyddion Diogelwch ar waith. Mae hyn yn cynnwys hyfforddiant sylfaenol i wella cysondeb ymarfer ac i fagu hyder ymarferwyr.

## 2.2 Pobl

**Trefniadau partneriaeth**
Ceir dull cadarnhaol o ddysgu a datblygu mewn perthynas ag amddiffyn plant ar draws asiantaethau. Mae rhaglen o hyfforddiant amlasiantaeth wyneb yn wyneb a rhithwir wrthi'n cael ei chyflwyno ym mhob rhan o Fwrdd Diogelu Cwm Taf Morgannwg yn unol â'r argymhellion a wnaed yn dilyn adolygiadau ymarfer plant a gyhoeddwyd.
Ceir diwylliant iach a chadarnhaol o herio rhwng asiantaethau, gan ddefnyddio polisi CRISP weithiau, er mwyn helpu ymarferwyr i ddod o hyd i ateb lle ceir anghytundeb proffesiynol mewn perthynas ag ymarfer diogelu.

Mae arweinwyr a rheolwyr yn deall maint yr angen a'r risg yn eu hardal. Maent yn meddu ar ddealltwriaeth dda o brofiadau plant a theuluoedd y mae angen help arnynt ac yn cydweithio i gynllunio'n strategol ar eu cyfer. Mae dull gweithredu sy'n canolbwyntio ar y plentyn yn amlwg ar lefel weithredol, yn enwedig pan fydd plant yn yr ysgol.

**Cryfderau**
**Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf Morgannwg**
Ceir tystiolaeth fod gweithwyr proffesiynol yn gofyn am safbwyntiau'r plentyn yn ystod ymgyngoriadau pediatrig ac mewn cofnodion ymwelwyr iechyd. Mae'r gwasanaethau iechyd yn cydweithio'n agos â rhieni a gofalwyr er mwyn sicrhau newidiadau cadarnhaol i blant. Caiff yr adborth a geir gan blant a'u teuluoedd ei ddefnyddio i lywio gwasanaethau, gan gynnwys yn CAMHS a'r Hwb Diogelu.
Mae tîm diogelu'r bwrdd iechyd yn adnodd gwerthfawr, sy'n cynnig cymorth, cyngor, goruchwyliaeth a hyfforddiant i staff. Mae'r tîm yn cymryd camau rhagweithiol i sicrhau y caiff y gwersi a ddysgwyd o adolygiadau eu rhannu drwy ddatblygu briffiadau 7 munud o hyd a diwygio hyfforddiant er mwyn ystyried y negeseuon allweddol. Byddai adnoddau pellach yn galluogi'r tîm i ehangu ei wasanaethau i fwy o grwpiau staff, megis cynnig sesiynau goruchwylio diogelu ffurfiol i staff CAMHS a chynnig mwy o sesiynau hyfforddiant diogelu Lefel 3 er mwyn gwella lefelau cydymffurfiaeth â hyfforddiant gorfodol.

**Addysg**
Ceir trefniadau arwain cryf mewn perthynas â diogelu mewn ysgolion, wedi'u cefnogi'n effeithiol gan y Tîm Ymgysylltu ag Addysg. Mae gwaith y tîm hwn yn cynnig esiampl dda ac mae arweinwyr ysgolion a staff llesiant yn ei werthfawrogi'n fawr.
Mae gan Gyfarwyddwr Corfforaethol yr adran Addysg a Chymorth i Deuluoedd weledigaeth glir ac uchelgeisiol i sicrhau bod ysgolion yn cynnig amgylcheddau dysgu diogel, cefnogol a magwrus i blant a phobl ifanc Pen-y-bont ar Ogwr. Ar y cyd â'r pennaeth addysg a rheolwyr grŵp y gwasanaethau perthnasol, mae'r Cyfarwyddwr Corfforaethol yn rhoi cryn ffocws ar ddiogelwch a llesiant pob disgybl. Maent yn cydweithio mewn ffordd effeithiol a phenderfynol i roi cynlluniau strategol

ystyrlon ar waith. Caiff rolau arweinyddiaeth a rheolaeth eu dosbarthu mewn ffordd effeithiol a synhwyrol ar draws y gwasanaeth. Mae arweinwyr ar bob lefel yn deall eu cyfrifoldebau o ran cadw dysgwyr yn ddiogel ac yn frwdfrydig iawn am eu gwaith.

Mae'r Gyfarwyddiaeth Addysg a Theuluoedd yn ystyried blaenoriaethau cenedlaethol yn briodol ac mae wedi nodi meysydd pwysig i'w datblygu. Mae wedi rhoi polisïau a strategaethau priodol ar waith er mwyn helpu i wella, er enghraifft gwella presenoldeb, lleihau nifer y gwaharddiadau a mynd i'r afael ag effaith tlodi ac amddifadedd ar gynnydd a llesiant disgyblion.

Ym mhob achos a welwyd yn ystod yr arolygiad, mae ysgolion yn mynd ati mewn ffordd benderfynol i gefnogi plant sy'n wynebu risg o niwed a'r rhai hynny sydd wedi dioddef niwed sylweddol ac yn rhoi ymyriadau buddiol a pherthnasol ar waith ar eu cyfer (ac yn aml ar gyfer eu teuluoedd). Yn y rhan fwyaf o achosion, caiff ysgolion eu hysbysu'n llawn am ddigwyddiadau a datblygiadau, ond ceir gormod o amrywiaeth o ran amseroldeb gwybodaeth o Hysbysiadau Amddiffyn y Cyhoedd (HACau). Mewn rhai achosion, ni chaiff datblygiadau pwysig eu rhannu'n uniongyrchol ag ysgolion.

Lle y bo'n briodol, caiff plant eu cynnwys a'u gwahodd i gyfarfodydd sy'n effeithio arnynt. Mae llais disgyblion mewn ysgolion yn gryf ac mae plant yn nodi bod y staff yn eu cynnwys wrth wneud penderfyniadau ac yn barod i wrando ar eu safbwyntiau. Mae'r awdurdod lleol yn rhoi cymorth ieithyddol yn ystod cyfarfodydd i ddisgyblion a'u teuluoedd nad Saesneg yw eu mamiaith ac mae hefyd yn cyfieithu dogfennaeth allweddol.

Mae'r awdurdod lleol yn cynnig hyfforddiant diogelu rheolaidd a pherthnasol ar bob lefel i ysgolion. Mae'r hyfforddiant hwn yn bodloni'r gofynion statudol mewn perthynas â rhoi hyfforddiant diogelu ac amddiffyn plant i staff addysg ar bob lefel. Fel rhan o'r gwersi a ddysgwyd o adolygiad ymarfer plant a gyhoeddwyd yn ddiweddar, rhoddwyd cyngor pellach i ysgolion o ran sut i ymchwilio i anafiadau bwriadol ac ymateb iddynt. Caiff cyfleoedd dysgu proffesiynol a chyfleoedd dysgu eraill defnyddiol eu trefnu'n rheolaidd gan yr awdurdod lleol mewn perthynas â materion diogelu perthnasol. Er bod staff ysgolion wedi'u hyfforddi i lefel briodol i'w galluogi i gyflawni eu rôl o ran diogelu plant, mae faint o lywodraethwyr ysgolion sy'n ymgymryd â hyfforddiant diogelu yn amrywio.

**Heddlu De Cymru**
Mae gan yr heddlu ffocws clir ar bobl agored i niwed. Ar lefel strategol, mae gan yr heddlu drefniadau llywodraethu strwythuredig ar gyfer pobl agored i niwed, sy'n cynnwys trefniadau amddiffyn plant. Caiff bwrdd gwella'r heddlu ar gyfer pobl agored i niwed wedi'i gadeirio gan brif gwnstabl cynorthwyol yr heddlu ei gynnal bob pythefnos. Caiff ei fynychu gan arweinwyr strategol o amrywiol adrannau'r heddlu. Yn ogystal, ceir strwythur hefyd ar y cyd â phartneriaid i adolygu perfformiad ac i nodi gwersi i'w dysgu er mwyn gwella ymarfer.

Ceir gwelededd uchel ar lefel prif swyddogion. Er enghraifft, mae'r prif gwnstabl yn cynnal sioe deithiol ar y cyd ag uwch-swyddogion eraill i drafod pynciau fel camfanteisio ar blant, y llwybr help cynnar a chymorth llesiant. Mae'r heddlu hefyd wedi rhoi llwybrau llesiant a chymorth ar waith sydd ar gael i bob aelod o'r staff.

Lle bydd gan swyddogion yr heddlu bryderon am les plant, byddant yn eu cofnodi ar systemau'r heddlu. Bydd staff arbenigol yn bwrw golwg dros yr adroddiadau hyn ac yn ychwanegu gwybodaeth berthnasol cyn eu rhannu â'r gwasanaethau plant. Gwelsom fod ymchwiliadau yn cael eu goruchwylio mewn modd amserol a rheolaidd a bod y broses oruchwylio weithiau'n cynnwys uwch-reolwyr.

Gwelsom rai enghreifftiau da o swyddogion yn mynychu digwyddiadau ac yn ymgysylltu ag aelodau o'r cyhoedd er mwyn gwneud yn siŵr eu bod yn cael eu diogelu. Mae Hysbysiadau Amddiffyn y Cyhoedd yn dangos bod swyddogion yn cofnodi llais y plentyn. Yn aml, caiff plant eu gweld a siaredir â nhw, ond mae'r heddlu yn ymwybodol bod y broses hon yn anghyson o hyd. Mae angen gwella ansawdd y broses o gofnodi profiad bywyd plant er mwyn gallu diwallu eu hanghenion mewn ffordd unigol wedi'i deilwra'n benodol atynt.

**Gwasanaethau Plant**
Mae arweinwyr ac uwch-reolwyr Pen-y-bont ar Ogwr yn rhoi pwyslais mawr ar wella gwasanaethau plant. Mae'r Prif Weithredwr yn dal i gadeirio'r Bwrdd Gwella Canlyniadau i Blant, a sefydlwyd ym mis Mawrth 2022. Mae'r Bwrdd wedi cael effaith gadarnhaol drwy oruchwylio'r gwasanaethau plant a'r gwasanaethau cymorth cynnar yn well, gan sicrhau bod digon o wybodaeth am berfformiad a'i fod yn destun craffu.

Roedd ymarferwyr yn gadarnhaol wrth sôn am y cymorth y maent yn ei roi i'w gilydd a'r ethos tîm. Clywsom am enghreifftiau rhagorol o gymorth rhwng cydweithwyr, trefniadau goruchwylio anffurfiol a ffurfiol, a rheolwyr hygyrch y mae'n hawdd mynd atynt. Mae'r trefniadau ar gyfer goruchwylio ffeiliau gan y rheolwyr yn gyson, ond nid oedd bob amser yn ddigon effeithiol o ran cofnodi her a rheoli ansawdd y penderfyniadau a wneir. Gall hyn arwain at golli cyfle i wella ansawdd amrywiol asesiadau a chynlluniau. Mae ymarferwyr yn croesawu'r gostyngiad o ran nifer y llwyth achosion er mwyn cefnogi gwelliannau ymarfer ym maes gwybodaeth, cyngor a chymorth.

Mae gwasanaeth eirioli yn cael ei ddarparu i ddiwallu anghenion plant unigol. Mae'r awdurdod lleol wedi nodi cynnydd sylweddol yn nifer yr atgyfeiriadau at y gwasanaeth eirioli o gymharu â 2021/22. Mae'r cyfathrebu rhwng ymarferwyr a darparwyr y trydydd sector yn dda ar y cyfan. Dywedodd y plant y gwnaethom siarad â nhw eu bod yn adnabod eu gweithiwr cymdeithasol a'u bod yn deall ei fod yn eu cadw'n ddiogel. Roedd pob un ohonynt yn cael cymorth gan eiriolwr i fynegi eu

safbwyntiau ac roeddent yn gwerthfawrogi'r cymorth hwn. Mae cynnwys lleisiau plant a theuluoedd fel rhan o'r cynlluniau yn helpu i sicrhau bod pobl yn cael y cymorth cywir.

Ar y cyfan, mae ymarferwyr yn gadarnhaol mewn perthynas â hyfforddiant, datblygiad a chyfleoedd i rannu gwersi a ddysgwyd yn yr awdurdod lleol. Mae'n rhy gynnar i asesu effaith Arwyddion Diogelwch, ond yn sicr, mae'r gweithlu wedi croesawu'r fenter. Roedd rhai ymarferwyr yn MASH o'r farn y byddai hyfforddiant wedi'i deilwra mwy at bynciau penodol o fudd iddynt er mwyn gallu goruchwylio'r amrywiaeth eang o waith yr oeddent yn ei wneud.

Gwelsom dystiolaeth o'r Cynnig Rhagweithiol ar gyfer y Gymraeg a bod dewisiadau ieithyddol pobl yn cael eu cofnodi mewn dogfennau allweddol. Er na wnaethom edrych ar unrhyw gofnodion Cymraeg, gallem weld lle roedd y Gymraeg wedi'i nodi fel y dewis iaith.

**Yr hyn y mae angen ei wella**
**Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf Morgannwg**
Mae angen atgyfnerthu'r trefniadau llywodraethu, gan roi prosesau goruchwylio cliriach ar waith a gwell trefniadau monitro mewn perthynas â sicrhau ansawdd. Nid oes strategaeth diogelu ar waith ac mae'r broses barhaus i ailstrwythuro'r bwrdd iechyd wedi creu rhywfaint o ansicrwydd o ran pwy ddylai fod yn gyfrifol am reoli trefniadau craffu a goruchwylio. Ceir presenoldeb da gan gynrychiolwyr o wahanol adrannau yng nghyfarfodydd grŵp gweithredol y bwrdd iechyd ar ddiogelu.
Mae lefelau cydymffurfiaeth rhai grwpiau allweddol o staff â hyfforddiant diogelu lefel 3 yn wael ac yn risg a nodwyd ers cryn amser. Mae'r ffactorau sydd wedi gwaethygu'r sefyllfa yn cynnwys effaith pandemig COVID-19 ar allu staff i gwblhau'r hyfforddiant, y ffaith nad oes gan rai grwpiau o staff fynediad at y system cofnodion staff electronig, cywirdeb cofnodion ar y system honno a diffyg cyfleoedd hyfforddi amlasiantaeth. Dim ond adnoddau cyfyngedig sydd ar gael o fewn tîm diogelu'r bwrdd iechyd i ddatblygu, cydgysylltu a chyflwyno hyfforddiant. Mae lefelau cydymffurfiaeth â hyfforddiant trais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol hefyd yn isel.

Nid oes gwiriad gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd (DBS) wedi'i gofnodi ar y cofnodion staff electronig ar gyfer canran uchel o staff y bwrdd iechyd. Mae hyn yn destun pryder ac mae angen ymdrin â'r mater ar unwaith.

Mae'n amlwg bod staff y bwrdd iechyd yn rhoi blaenoriaeth i weithgarwch diogelu er gwaethaf yr holl bwysau eraill. Fodd bynnag, mae'r galw cynyddol wedi effeithio ar y gallu i ddarparu gwasanaethau mewn rhai meysydd. Mae hyn yn cynnwys cydymffurfiaeth ag amserlenni statudol ar gyfer asesiadau iechyd i blant sy'n derbyn gofal, a gallu nyrsys amddiffyn y cyhoedd i ymateb yn brydlon i staff sydd am gael cyngor am atgyfeiriadau amddiffyn plant.

Mae nifer y systemau cofnodi cyfrifiadurol a ddefnyddir gan y bwrdd iechyd yn llesteirio gallu staff i gasglu gwybodaeth ar gyfer cyfarfodydd strategaeth a chynadleddau amddiffyn plant. Mae hefyd yn peri risg sylweddol y caiff gwybodaeth berthnasol ei cholli.

**Heddlu De Cymru**
Mae dadansoddwyr yn cwblhau asesiadau strategol a phroffiliau problemau er mwyn helpu'r heddlu i ddeall graddau risg, bygythiad a niwed yn y meysydd a bennwyd fel meysydd blaenoriaeth ganddo, er enghraifft camfanteisio troseddol. Nid yw'n glir a yw'r dull gweithredu hwn yn cael ei ddefnyddio i lywio strategaeth gyffredinol ar gyfer amddiffyn plant. Er enghraifft, mae gan yr heddlu wybodaeth am unigolion sy'n camfanteisio ar blant yn droseddol neu'n rhywiol, ond ni cheir dealltwriaeth o'r risg a'r niwed dynamig i'r plant yn sgil hynny. Felly nid yw'r heddlu yn cynnal asesiadau priodol o'r wybodaeth a ddelir ganddo am blant agored i niwed, pwy ydynt, a phwy sy'n peri risg iddynt.

Dylid gwella lefelau cydymffurfiaeth â hyfforddiant diogelu. Mae'r heddlu yn cyflwyno hyfforddiant ar bobl agored i niwed i staff, er nad yw pob aelod o staff sy'n gysylltiedig â phobl agored i niwed wedi cwblhau'r hyfforddiant achrededig.

Mae angen gwella ymateb yr heddlu i blant sydd wedi mynd ar goll, yn enwedig plant â phrofiad o fod mewn gofal. Byddai cynllun rheoli risgiau amlasiantaeth wedi'i lunio ar y cyd yn fwy effeithiol ac yn unol â'r trefniadau ar gyfer gweithio mewn partneriaeth. Gwelsom rai enghreifftiau lle roedd achosion yn cael eu dyrannu i swyddogion patrôl yn hytrach nag ymchwilwyr arbenigol mwy profiadol.

**Gwasanaethau Plant**
Er bod yr awdurdod lleol yn parhau i gymryd camau sylweddol i ymdrin â'r heriau recriwtio a chadw, mae hyn yn peri cryn bwysau o hyd. Ar adeg yr arolygiad, roedd dibyniaeth ar staff asiantaeth i gyflawni swyddogaethau statudol allweddol. Mae'r gweithlu parhaol yn pryderu'n fawr am y cynllun ymadael ar gyfer gweithwyr asiantaeth. Rydym yn cydnabod y llwyddiannau diweddar wrth benodi unigolion i swyddi rheoli parhaol. Fodd bynnag, mae gweithlu ansefydlog yn atal plant rhag meithrin cydberthnasau sefydlog, ymddiriedus ac arwyddocaol â gweithiwr cyson.

Nodwyd gennym fod sesiynau goruchwylio anffurfiol a ffurfiol yn cael eu cynnal yn rheolaidd ar draws y timau. Nododd y staff eu bod yn cael sesiynau goruchwylio rheolaidd o ansawdd da, ond nid oedd tystiolaeth gadarn o hyn mewn sampl o'r nodiadau goruchwylio. Nid yw'r sesiynau goruchwylio yn cynnwys prosesau dadansoddi beirniadol, cyfle i fyfyrio na ffocws ar anghenion dysgu a datblygu'r aelod unigol o staff. Yn ystod y misoedd diwethaf, lansiodd yr awdurdod lleol bolisi goruchwylio newydd. Nid yw rhai aelodau o'r staff a'r rheolwyr yn ymwybodol o'r polisi hwn sy'n awgrymu nad yw wedi cael ei roi ar waith gan y timau.

Mae angen atgyfnerthu cyfrifoldebau ymarferwyr tuag at rieni, gan gynnwys rhieni sydd wedi ymbellhau neu nad ydynt o bosibl yn rhan weithredol o fywyd eu plentyn. Er enghraifft, gwelsom enghraifft lle na chafodd tad wahoddiad i gyfarfodydd y grŵp craidd a lle nad oedd wedi cael copi o gofnodion y gynhadledd amddiffyn plant gychwynnol. Methwyd cyfle i gynnwys aelodau pwysig o'r teulu ac i roi'r wybodaeth ddiweddaraf iddynt. Mae Bwrdd Diogelu Cwm Taf Morgannwg wedi cyhoeddi nodyn ymarfer i atgoffa staff am eu cyfrifoldeb proffesiynol tuag at rieni absennol, ac mae'n rhaid ei ddilyn fel mater o drefn.

Mae uchelgais yr awdurdod lleol i roi amrywiaeth o gynlluniau gwella ar waith yn gadarnhaol. Mae sicrhau y caiff y broses ei rheoli'n ofalus gan ganolbwyntio ar flaenoriaethau allweddol er mwyn lleihau'r risg bosibl y bydd staff yn teimlo eu bod yn cael eu llethu yn her. Mae angen cyfathrebu â'r staff mewn ffordd gryno wedi'i thargedu er mwyn gwella cysondeb mewn rhai meysydd allweddol.  Mae angen amser nawr i gadarnhau a deall y negeseuon ynghylch ymarfer.

## 2.3 Partneriaethau ac Integreiddio

**Trefniadau Partneriaeth**

Ceir cymorth da gan y Bwrdd Diogelu Rhanbarthol lle ceir cydberthnasau sefydledig a chyson. Mae'r arweinwyr yn y bartneriaeth leol wrthi'n monitro ac yn gwerthuso gwaith y partneriaid statudol, a hynny drwy'r trefniadau diogelu amlasiantaethol (MASA). Maent yn darparu trefniadau llywodraethu, craffu a sicrhau yn seiliedig ar bartneriaeth mewn perthynas ag effeithiolrwydd gwasanaethau. Mae Grŵp Gweithredol ar y Cyd ar lefel rheolwyr yn cynnig cyfle rheolaidd pellach ar gyfer heriau adeiladol a gwelliannau parhaus rhwng partneriaid.

Manteisir ar gyfleoedd i weithio mewn partneriaeth ar lefel weithredol ac ar lefel strategol. Mae'r gweithwyr proffesiynol sy'n rhan o'r MASH wedi'u cydleoli, gan helpu i hyrwyddo trefniadau gweithio mewn partneriaeth. Mae rheolwyr tîm MASH yn cyfarfod yn rheolaidd er mwyn trafod unrhyw faterion neu rannu arferion da. Gwelsom gynrychiolaeth dda gan y partneriaid allweddol mewn trafodaethau/cyfarfodydd strategaeth a chynadleddau achos. Ymatebodd 45 o ymarferwyr i arolwg dienw AGC a nododd y rhan fwyaf ohonynt fod y trefniadau ar gyfer gweithio mewn partneriaeth yn rhagorol neu'n dda (60%) gyda 38% yn nodi eu bod yn ddigonol.

Buddsoddwyd mewn system rhannu gwybodaeth ranbarthol – y cyfeirir ati fel GOSS (*Ground Operational Support Services*) i'w defnyddio gan yr asiantaethau partner. Cynhaliwyd ymgynghoriad â rhanddeiliaid allweddol fel rhan o'r broses o ddatblygu'r gwaith hwn, y bwriedir iddo wella prosesau cyfathrebu amlasiantaeth.

Fel y nodwyd fel rhan o weithgarwch arolygu diweddar AGC, mae trefniadau goruchwylio perfformiad parhaus ar waith ar wahanol lefelau o'r awdurdod lleol. Mae gwaith sicrhau ansawdd gan ddarparwr allanol a'r gwasanaethau plant yn cynnig

darlun cywir o ansawdd yr ymarfer, gan ddefnyddio gwybodaeth am lefelau cydymffurfiaeth a phrofiadau plant. Caiff y negeseuon hyn eu rhannu â'r partneriaid er mwyn iddynt eu hystyried.

Mae sicrhau cyd-ddealltwriaeth o'r trothwy ar gyfer niwed sylweddol yn faes i'w atgyfnerthu. Mae camau cadarnhaol ar waith i ymdrin â chysondeb y penderfyniadau a wneir gan gynnwys camau gan reolwyr gwasanaethau cymdeithasol i wella ymwybyddiaeth mewn ysgolion. Rydym ar ddeall bod rhaglen hyfforddi ar y cyd wrthi'n cael ei datblygu ynghyd â pholisi trothwy. Mae angen i weithwyr proffesiynol sy'n cydweithio ddeall rolau a chyfrifoldebau ei gilydd yn glir. Mae hyn yn arbennig o wir lle bydd deddfwriaeth newydd yn effeithio ar ymarfer amddiffyn plant fel Deddf Plant (Diddymu Amddiffyniad Cosb Resymol) (Cymru) 2020.

**Cryfderau**
**Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf Morgannwg**
Yn ôl llawer o'r cofnodion, mae'n amlwg bod staff iechyd, gan gynnwys meddygon teulu, yn cyfathrebu'n dda ar y cyfan ac yn gweithio'n gynhyrchiol gyda phartneriaid amlasiantaeth. Mae meddygon teulu yn gwybod pa blant sy'n cael gofal gan yr awdurdod lleol neu sydd wedi'u henwi ar y gofrestr amddiffyn plant. Ceir tystiolaeth o drefniadau da ar gyfer gweithio a chyfathrebu amlasiantaeth ynghyd ag enghreifftiau o ymwelwyr iechyd yn rhoi blaenoriaeth i fynychu cyfarfodydd diogelu. Mae lefelau ymgysylltu ar gyfer cyfarfodydd diogelu yn gyson dda.

Mae staff gofal iechyd yn hyderus wrth herio partneriaid ac mae prosesau uwchgyfeirio ar waith. Gallant uwchgyfeirio materion drwy'r tîm diogelu corfforaethol os bydd angen. Mae fforwm trafod achosion amlasiantaeth ar waith, sy'n cynnig man diogel i bartneriaid drafod achosion a'u herio'n broffesiynol lle ceir gwahaniaethau barn. Mae pediatregwyr wedi datblygu hyfforddiant wedi'i deilwra'n benodol i'r asiantaethau partner ar y rolau a'r cyfrifoldebau pan fydd angen archwiliad meddygol amddiffyn plant ar blentyn er mwyn sicrhau bod y partneriaid yn ymwybodol o'r llwybrau a'r prosesau cywir.

**Addysg**
Mae arferion gweithio cadarn ar waith rhwng ysgolion/UCD ac asiantaethau eraill fel gwasanaethau iechyd a gwasanaethau plant sy'n gweithio'n effeithiol mewn partneriaeth i gynllunio, gweithredu ac adolygu'r ddarpariaeth ar gyfer plant agored i niwed ym Mhen-y-bont ar Ogwr. Caiff hyn ei gefnogi drwy gyfarfodydd y Tîm o Amgylch yr Ysgol a thrwy weithio'n agos â'r Tîm Ymgysylltu ag Addysg, MASH a hybiau 'help cynnar' yr ardal.

Mae'r awdurdod lleol yn ei gwneud yn ofynnol i bob ysgol gyflwyno archwiliad diogelu blynyddol y bydd Tîm Ymgysylltu ag Addysg yr awdurdod lleol wedyn yn craffu arno. Mae'r tîm yn darparu swyddogaeth herio gadarn i ysgolion drwy'r broses hon. Ar y cyfan, mae'r archwiliadau hyn yn gynhwysfawr ac yn bwrpasol ac maent yn

galluogi ysgolion i nodi cryfderau clir a meysydd clir i'w datblygu. Mae gweithwyr cyswllt y tîm yn ymweld â phob ysgol unwaith y tymor i adolygu cynnydd ac mae hyn yn helpu i gynnal ffocws cryf ar wella.

Mae'r ysgolion yn mynychu cynadleddau ac adolygiadau amddiffyn plant ac yn gwneud cyfraniad llawn atynt. Caiff data ar bresenoldeb, prydlondeb a chyrhaeddiad y plentyn eu rhannu mewn adroddiadau ysgol. Mae'r ysgolion yn adnabod y plant yn dda ac yn aml yn cynnig cymorth ychwanegol drwy ddarpariaeth clwb brecwast, gan bennu oedolyn y gellir ymddiried ynddo i'r plant fynd ato a chan drefnu ystafelloedd ar gyfer ymweliadau gan weithwyr cymdeithasol. Ceir tystiolaeth dda o ysgolion yn gweithio gyda'r rhieni mewn ffordd gefnogol ond gan ganolbwyntio'n llwyr ar lesiant y plentyn. Mae'r cyswllt rhwng rhieni ac ysgolion yn rhoi gwybodaeth ddefnyddiol sy'n helpu i gynllunio gofal a chymorth.

Mae'r awdurdod lleol wedi rhoi prosesau cadarn ac amserol ar waith i reoli unrhyw bryderon proffesiynol o dan Adran 5 o Weithdrefnau Diogelu Cymru.

**Heddlu De Cymru**
Mae sawl enghraifft o drefniadau cadarnhaol ar gyfer gweithio mewn partneriaeth gan gynnwys rhannu gwybodaeth mewn ffordd ragweithiol a chyfrannu at fforymau gwneud penderfyniadau. Caiff cyfarfodydd strategaeth ychwanegol eu cynnal pan ddaw gwybodaeth newydd i'r amlwg, wedi'u hategu gan brosesau cadarn ar gyfer cadw cofnodion sy'n cynnwys camau gweithredu clir.

Mewn rhai achosion, mae'r swyddogion sy'n ymateb i ddigwyddiadau yn ymgysylltu'n dda â'r bobl er mwyn gwneud yn siŵr eu bod yn cael eu diogelu. Yn yr achosion hyn, mae'r broses o wneud penderfyniadau yn cynnwys gofyn barn y bobl dan sylw er mwyn sicrhau y gellir rheoli sefyllfaoedd yn ddiogel.

Mae'r partneriaid yn cydweithio'n dda i gychwyn gweithdrefnau amddiffyn plant a'u rhoi ar waith er mwyn sicrhau bod y plentyn yn ddiogel rhag niwed a chamdriniaeth. Roedd adroddiadau gwybodaeth ar gyfer cynadleddau achos yn drylwyr ac yn cael eu rhannu â phob asiantaeth. Roeddent hefyd ar gael yn hawdd ar systemau'r heddlu.

**Gwasanaethau Plant**
Fel y nodwyd yn ystod arolygiadau blaenorol gan AGC, manteisir ar gyfleoedd i weithio mewn partneriaeth ar draws asiantaethau. Mae recordiadau a chyfweliadau achosion yn dangos bod cydberthnasau gwaith rhagorol ar waith rhwng y teuluoedd a'r gweithwyr proffesiynol. Gwelsom enghraifft arbennig o gadarnhaol o ysgol yn helpu mam i gyllidebu ac yn rhoi cyngor iddi am fwyta'n iach.
Er gwaethaf clywed am effaith negyddol newidiadau mynych o ran gweithwyr cymdeithasol ar y gallu i weithio mewn partneriaeth â phlant, clywsom hefyd gan

rieni am yr effaith gadarnhaol pan fydd yn gweithio'n dda. Dywedodd un rhiant wrthym '*my child's social worker now is amazing. He keeps me in touch and informed really gets on well with * and * really likes him. I just hope he will stay*'.

Gwelsom, ar y cyfan, fod partneriaethau effeithiol ar waith i gomisiynu a rhoi cymorth o ansawdd da i blant a theuluoedd ym Mhen-y-bont ar Ogwr. Er enghraifft, mae'r awdurdod lleol wedi buddsoddi yn y trydydd sector er mwyn datblygu a chynyddu nifer y cyfarfodydd grŵp i deuluoedd. Rhannwyd enghreifftiau cadarnhaol o ganlyniadau da yn deillio o'r gwaith hwn. Mae partneriaid y trydydd sector yn glir ac yn hyderus yn eu rolau. Maent yn gwneud cyfraniad sylweddol wrth feithrin gwydnwch teuluoedd a chefnogi llesiant pobl. Nid yw rhai partneriaid yn y trydydd sector yn gosod terfynau amser ar eu gwaith gyda phlant, ac mae'r teuluoedd yn gwerthfawrogi'r hyblygrwydd y mae hyn yn ei roi.

**Yr hyn y mae angen ei wella**

**Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf Morgannwg**

Yn y ffeiliau a welwyd, nid oedd yn glir a oes llwybr hwylus ar gyfer trosglwyddo gofal rhwng gwasanaethau iechyd, er enghraifft o'r fydwraig i'r ymwelydd iechyd, neu o'r ymwelydd iechyd i nyrs yr ysgol. Nid oedd unrhyw dystiolaeth ychwaith bod cynlluniau amddiffyn gofal a chymorth yn cael eu hadolygu na bod camau gweithredu yn cael eu diweddaru fel rhan o'r cyswllt gan y gweithiwr iechyd proffesiynol.

Er gwaethaf rhai enghreifftiau da o ymweliadau ar y cyd rhwng gwasanaethau iechyd a gwasanaethau cymdeithasol a chyfathrebu da a oedd yn cefnogi ymarfer, gellid gwella lefelau presenoldeb mewn cyfarfodydd amddiffyn plant. Gellid gwella'r cyfraniad at gyfarfodydd grŵp craidd a chynadleddau adolygu amddiffyn plant ar gyfer plant oedran ysgol hefyd. Mae hyn yn gyfle coll i fod yn rhan o'r trefniadau amddiffyn plant amlasiantaeth.

Yn ôl arolwg iechyd a gynhaliwyd fel rhan o'r adolygiad hwn, dywedodd 60% o'r 71 o ymatebwyr ledled ardal BIPCTM nad oedd y systemau TG yn hwyluso'r broses o gyfathrebu/rhannu gwybodaeth yn effeithiol mewn perthynas â diogelu. Dywedodd tua 50% o'r ymatebwyr nad yw'r broses o rannu gwybodaeth rhwng asiantaethau perthnasol mewn perthynas â diogelu plant yn effeithiol.

Fel y nodwyd yn flaenorol, mae lefelau cydymffurfiaeth â hyfforddiant diogelu yn amrywio ar draws y bwrdd iechyd, gyda lefelau cydymffurfiaeth gwael mewn rhai ardaloedd. Mae'r bwrdd iechyd yn cydnabod bod hwn yn faes i'w wella. Ceir dryswch am y trothwyon ac mae angen gwneud rhagor o waith a chynnig mwy o hyfforddiant ar drothwyon a chwilfrydedd proffesiynol.

**Heddlu De Cymru**
Fel y soniwyd yn gynharach yn yr adroddiad, weithiau ni chaiff Hysbysiadau Amddiffyn y Cyhoedd eu rhannu ag ysgolion mewn modd amserol. O ganlyniad, mae'n bosibl nad yw rhai plant yn cael cymorth yn ddigon cyflym.

Er gwaethaf rhai enghreifftiau cadarnhaol o ymgysylltu â phlant yn y cofnodion y gwnaethom edrych arnynt, gwelsom hefyd enghreifftiau o iaith a oedd yn awgrymu rhwystredigaeth rhwng yr heddlu a phartneriaid, gan nodi bod rhywfaint o anghytuno o ran pa asiantaeth sy'n gyfrifol am ddiogelu plentyn. Mae'r tensiynau hyn yn awgrymu nad yw'r asiantaethau bob amser yn cydweithio'n effeithiol. Nid yw agweddau na gweithgareddau bob amser yn canolbwyntio ar y plentyn.

**Gwasanaethau Plant**
Ni chaiff cofnodion o gyfarfodydd amddiffyn plant fel cofnodion o gynadleddau a chyfarfodydd grŵp craidd eu rhannu'n gyson â phartneriaid allweddol. Mae hyn yn golygu na fydd yr asiantaethau o bosibl yn cael gwybodaeth allweddol i'w galluogi i ddiogelu a chefnogi plant a theuluoedd.

Mae bylchau yng nghofnodion y plant yn golygu ei bod hi'n anodd deall amgylchiadau plant yn iawn. Mae'r trefniadau goruchwylio rheng flaen gan reolwyr yn dda ond nid ydynt cystal yn yr hybiau diogelu lle cafodd trosiant staff a llwythi achosion uchel effaith andwyol ar ymarfer gwaith cymdeithasol yn y gorffennol agos.

Ceir tystiolaeth bod adolygiadau yn cael eu cynnal ond prin yw'r dystiolaeth sy'n dangos sut y caiff plant eu cynnwys wrth adolygu eu cynlluniau gofal a chymorth. Dim ond nifer cymharol fach o blant a phobl ifanc sy'n mynychu eu cyfarfod ac mae angen i'r awdurdod lleol ddeall y rhesymau dros hyn. Gwelsom enghraifft lle nodwyd bod plentyn yn rhy ifanc, ond lle roedd y plentyn hwnnw yn ddigon hen i gymryd rhan.

Mae gan Swyddogion Adolygu Annibynnol ran hanfodol i'w chwarae wrth oruchwylio ansawdd ymarfer ac maent yn gwneud cyfraniad gwerthfawr wrth herio unrhyw achosion o oedi pan fo angen. Oherwydd eu llwythi gwaith uchel ar hyn o bryd, nid ydynt bob amser yn gallu rhoi blaenoriaeth i ymweld â phlant cyn cynnal adolygiad plant sy'n derbyn gofal. Maent yn ymgynghori â'r rhieni ym mhob achos cyn cynnal cynadleddau cychwynnol a chynadleddau adolygu. Rhaid i'r awdurdod lleol sicrhau bod trefniadau cyson ar waith i gasglu safbwyntiau plant, a bod plant yn cael cyfleoedd i gymryd rhan yn y penderfyniadau sy'n effeithio arnynt.

Mae rhai cynlluniau yn canolbwyntio ar yr oedolyn yn hytrach na'r plentyn a cheir diffyg canlyniadau mesuradwy. Mae'r cynlluniau hyn wedi'u hysgrifennu mewn iaith gyffredinol a phrin yw'r manylion penodol am yr hyn sydd angen ei newid a sut y caiff cynnydd ei fonitro. Mae datganiadau eang yn ei gwneud hi'n anodd dangos cynnydd yn erbyn anghenion a risgiau a nodwyd. Dylai'r grwpiau craidd roi mwy o ffocws ar

gynnydd yn erbyn y cynllun amddiffyn plant. Yn ôl y trafodaethau a gawsom ag ymarferwyr, ceir amrywiadau hefyd rhwng timau o ran eu dealltwriaeth o ba gofnodion y dylid eu rhannu â phlant a theuluoedd fel rhan o'r prosesau amddiffyn plant.

## 2.4 <u>Atal</u>

**Trefniadau Partneriaeth**
Yn y cyd-destun presennol o alw cynyddol, mae'n anodd blaenoriaethu'r agenda ataliol mewn ffordd sy'n lleihau'r angen am ofal a chymorth mwy ffurfiol. Mae'n gadarnhaol bod yr awdurdod lleol wedi comisiynu adolygiad annibynnol o'r gwasanaethau plant er mwyn gwerthuso'r modelau gweithredu a ddefnyddir. Caiff gwasanaethau help cynnar ac ar ffiniau gofal eu cynnwys yn yr adolygiad hwn er mwyn manteisio i'r eithaf ar y defnydd a wneir o'r holl adnoddau sydd ar gael i atal anghenion rhag gwaethygu.

Mae'r gwasanaeth help cynnar wedi'i gydleoli fel rhan o dimau diogelu'r ardal leol ac mae cynrychiolydd hefyd yn MASH. Mae amrywiaeth eang o help cynnar a chymorth ataliol yn cael ei rhoi i blant a theuluoedd, gan gynnwys rhaglen 'Comets and Rockets' i blant, cynghorwyr trais domestig annibynnol (IDVA), cymorth CCLIE drwy ysgolion a llawer o raglenni sy'n rhoi cymorth rhianta. Rhoddwyd ffocws yn ddiweddar ar leihau'r llwybrau atgyfeirio a gwella'r broses o rannu gwybodaeth.

Er gwaethaf amrywiaeth o wasanaethau ataliol, clywsom safbwyntiau cymysg am eu heffeithiolrwydd. Adlewyrchwyd y safbwyntiau hyn yn ein harolwg dienw i staff gwasanaethau cymdeithasol, a nododd un ymatebydd '*early help is a good source of support, and the staff have a good knowledge base*'. Dywedodd staff gwasanaethau cymdeithasol wrthym y gall rhestrau aros achosi oedi o ran rhoi cymorth i deuluoedd sy'n dechrau'r broses ond y gallant hefyd atal teuluoedd rhag camu i lawr i lefelau cymorth is. Roedd barn ysgolion am y gwasanaethau help cynnar yn fwy cadarnhaol.

Roedd ymarferwyr o wahanol asiantaethau o'r farn y gallai'r trefniadau ar gyfer camu i fyny a chamu i lawr drwy'r lefelau cymorth i blant a theuluoedd fod yn gliriach ac yn symlach. Er i ni gael gwybod bod protocol trosglwyddo ysgrifenedig clir ar waith, sy'n cynnwys ymweliadau ar y cyd, ymddengys nad yw pob aelod o staff yn ymwybodol o'r protocol hwn. Dylid sicrhau bod trefniadau clir a chyson ar waith o ran cynnig asesiadau a gwasanaethau ataliol er mwyn gwella'r canlyniadau i blant.

Yn achos rhai plant sydd wedi cael eu hesgeuluso am gyfnod hir, gall y gwaith cynllunio ar draws asiantaethau fod yn aneffeithiol, ac ni cheir digon o ffocws ar effaith ymyriadau a'r hyn sy'n newid i'r plant. Mae'r recordiadau yn ddisgrifiadol ac nid ydynt yn cynnig tystiolaeth o ba gynnydd a wneir, na pham na wnaed gwelliannau. Gwelsom enghreifftiau lle byddai ymyriadau cynharach o bosibl wedi bod o fudd i'r plant er mwyn atal eu hanghenion rhag gwaethygu.

**Cryfderau**

**Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf Morgannwg**

Yn ystod yr arolygiad, dywedodd staff iechyd wrthym eu bod yn croesawu'r penderfyniad i gyflwyno'r dull Arwyddion o Rybudd a chafwyd enghreifftiau cadarnhaol o atgyfeiriadau yn cael eu gwneud at wasanaethau ataliol. Gwelsom asesiadau iechyd holistaidd yng nghofnodion plant sy'n derbyn gofal a oedd yn nodi anghenion iechyd emosiynol a chorfforol yn ogystal â'u dymuniadau a'u teimladau.

**Addysg**

Mae'r awdurdod lleol wedi cyfuno'r amrywiaeth eang o wasanaethau cymorth a gynigir ganddo i ysgolion a theuluoedd agored i niwed fel rhan o ddarpariaeth 'Help Cynnar' bwrpasol ac integredig a gaiff ei rheoli'n dda. Mae'r gwasanaeth help cynnar yn cynnwys tîm o weithwyr proffesiynol wedi'u dosbarthu'n gyfartal ar draws tri hwb sy'n cwmpasu'r awdurdod lleol cyfan sy'n cefnogi gwaith ysgolion a'r gwasanaethau plant. Ar y cyfan, mae ysgolion o'r farn bod y system Hwb Help Cynnar yn gweithio'n dda iawn, a bod y staff yn rhoi lefel uchel o gymorth i deuluoedd unigol. Maent hefyd yn cynnal sesiynau wedi'u teilwra'n arbennig i ysgolion i ymdrin â phryderon cyffredin, er enghraifft delio â materion ymddygiadol.
Mae ysgolion cynradd a'r ysgol arbennig yn cynnig amrywiaeth eang o weithgareddau ataliol ac ymyriadau i ddisgyblion, gan gynnwys gwersi ar gydberthnasau iach ac aros yn ddiogel ar-lein. Maent hefyd yn cynnal ymgyrchoedd gwrth-fwlio. Fodd bynnag, mae'r ddarpariaeth ar gyfer addysg cydberthynas a rhywioldeb yn amrywio o ysgol i ysgol, sy'n adlewyrchu'r darlun cenedlaethol cyfredol. Mae'r gwasanaeth ieuenctid a gwasanaethau eraill fel y gwasanaeth cyfiawnder ieuenctid a'r gwasanaeth cyfathrebu a chydberthnasau (CART) yn rhoi cymorth buddiol i ysgolion a disgyblion unigol. Maent yn cynnal gwasanaethau ac yn rhannu adnoddau ag ysgolion gan roi ffocws clir ar strategaethau ataliol a rhagweithiol i annog disgyblion i ymgysylltu ac i leihau'r risg y byddant yn troseddu.

**Gwasanaethau Plant**

Nid oes rhestrau aros ar gyfer timau'r gwasanaethau plant ac er gwaethaf cyd-destun o gynnydd o ran nifer yr achosion a'u cymhlethdod, mae'r staff yn sôn yn gadarnhaol am y gwelliannau a wnaed gan yr awdurdod yn ystod y 18 mis diwethaf. Mae'r ymrwymiad hwn i wella systemau, prosesau ac ymarfer yn un o gryfderau CBS Pen-y-bont ar Ogwr. Fel y gwelwyd yng ngwiriad gwella blaenorol AGC, mae'r awdurdod lleol yn dal i ymateb yn brydlon ac yn effeithiol i ddiwallu anghenion plant, yn enwedig pan nodwyd bod angen a risg acíwt. Gwelsom enghreifftiau lle y caiff trefniadau gofal diogel eu trafod a'u rhoi ar waith ar y cyd â'r rhieni wrth i ymchwiliadau pellach fynd rhagddynt.

Er gwaethaf y galw ar y gwasanaeth, mae'r dangosyddion perfformiad mewn perthynas â dyletswyddau statudol fel cynnal cynadleddau ac ymweliadau amddiffyn plant amserol yn dda ar y cyfan. Mae lle i wella o hyd, felly rhaid i'r awdurdod lleol

barhau i ganolbwyntio a chynnal gwaith craffu er mwyn sicrhau ei fod yn cydymffurfio â'r holl gyfrifoldebau statudol.

**Yr hyn y mae angen ei wella**

**Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf Morgannwg**

Nid yw rhai o'r ymweliadau monitro cartref gan y staff iechyd yn nodi cynnydd yn erbyn CAGCh y plentyn. Mae'r terfynau amser yn aml yn annelwig, er enghraifft, nodir 'cyn gynted â phosibl' neu 'parhaus'. Mewn rhai achosion, gellid bod wedi gwella'r trefniadau ar gyfer ymgysylltu â nyrsys ysgol, gan nad oedd bob amser yn glir pa gyfraniad a wnaed ganddynt.

**Heddlu De Cymru**

Ceir enghreifftiau da o'r heddlu yn darparu gwasanaeth da wrth ymateb i ddigwyddiadau, gan roi ffocws ar ddiogelu. Ceir enghreifftiau da hefyd yn MASH. Fodd bynnag, mae rhai bylchau i'w gweld o ran ymateb yr heddlu i blant sydd ar goll. Nid yw'r asesiadau risg yn adlewyrchu amgylchiadau'r wybodaeth a ddarperir yn llawn, sy'n golygu bod rhai plant yn wynebu risg am gyfnodau hirach lle y gellid atal hynny.

Mae ymwybyddiaeth a dealltwriaeth staff o Ymgyrch Encompass, y broses a diben yr ymgyrch, yn anghyson. Ni chaiff gwybodaeth ddefnyddiol ei rhannu ag ysgolion felly nid yw lleoliad addysg y plentyn bob amser yn ymwybodol ei fod yn agored i niwed.

**Gwasanaethau Plant**

Clywsom y gall fod ansicrwydd mewn perthynas â chynnydd atgyfeiriadau a wnaed at y gwasanaeth help cynnar ac mai prin yw'r cyfleoedd i drosglwyddo o un tîm i'r llall. Nid yw ymarferwyr bob amser yn gwybod pryd y bydd cymorth yn dechrau, a all arwain at ailatgyfeirio achosion. Mae asesiadau help cynnar a gwasanaethau ataliol plant yn nodi anghenion yn dda, ond nid yw'r cynlluniau dilynol bob amser wedi'u llywio gan gyfarwyddyd rheoli digonol neu glir. Mae angen dyrannu adnoddau mewn ffordd ddarbodus er mwyn sicrhau bod yr help cywir ar gael ar yr adeg gywir.

## Y Camau Nesaf

Ar ran y bartneriaeth, dylai'r awdurdod lleol baratoi datganiad ysgrifenedig o gamau gweithredu arfaethedig yn ymateb i'r canfyddiadau a amlinellir yn yr adroddiad hwn. Dylai hwn fod yn ymateb amlasiantaeth yn cynnwys Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf Morgannwg a Heddlu De Cymru. Dylai'r ymateb nodi'r camau gweithredu ar gyfer y bartneriaeth a, lle y bo'n briodol, asiantaethau unigol. Dylai pennaeth y gwasanaeth ar gyfer gwasanaethau plant anfon y datganiad gweithredu ysgrifenedig i CIWLocalAuthority@gov.wales erbyn (dyddiad i'w gadarnhau gan y bydd 6 wythnos ar ôl cyhoeddi'r adroddiad). Bydd y datganiad hwn yn llywio'r llinellau ymholi mewn unrhyw weithgarwch ar y cyd neu weithgarwch asiantaeth unigol yn y dyfodol gan yr arolygiaethau.

## Methodoleg

**Gwaith maes**
Casglwyd y rhan fwyaf o'r dystiolaeth arolygu drwy adolygu profiadau pobl drwy edrych ar sampl o gofnodion asiantaethau ac olrhain trefniadau gofal a chymorth plant. Gwnaethom edrych ar sampl o ddeg ffeil achos ac olrhain chwech ohonynt.

Mae'r broses o olrhain cofnod plentyn yn cynnwys sgwrsio â'r plentyn lle y bo'n briodol, ei deulu neu ei ofalwyr, ei weithiwr allweddol, rheolwr y gweithiwr allweddol, a gweithwyr proffesiynol cysylltiedig eraill.

Gwnaethom gynnal grwpiau ffocws gyda staff a chanolbwyntiodd dau grŵp o weithwyr proffesiynol ar y trefniadau gweithio a'r canlyniadau ar gyfer dwy ffeil a gafodd eu holrhain.

Gwnaethom ymweld â sampl bach o ysgolion cynradd a'r ysgol arbennig, gan gynnal cyfarfodydd â'r pennaeth, yr arweinydd diogelu dynodedig a grwpiau bach o blant.

Gwnaethom gyfweld ag amrywiaeth o gyflogeion ar draws asiantaethau gwahanol.

Gwnaethom gyfweld ag amrywiaeth o sefydliadau partner yn cynrychioli'r sector statudol a'r trydydd sector.

Gwnaethom edrych ar ddogfennaeth ategol a anfonwyd at yr arolygiaethau at ddiben yr arolygiad.

Gwnaethom anfon arolygon at staff gwasanaethau plant, sefydliadau yn y trydydd sector a phlant ac aelodau o'u teulu.

Gwnaethom arsylwi ar gynadleddau ac ymarfer amddiffyn plant fel rhan o'n gweithgarwch arolygu.

Gwnaethom gynnal arolwg â phenaethiaid cyn yr arolygiad ac ymweld â sampl bach o ysgolion cynradd yn ystod wythnos yr arolygiad.

Gwnaethom werthuso samplau o gynlluniau gwaith iechyd a llesiant ac edrych ar samplau o waith disgyblion. Roedd hyn yn cynnwys cynnal sesiynau ‘gwrando ar y dysgwr’ ym mhob ysgol yr ymwelwyd â hi.


## Cydnabyddiaethau
Hoffai'r arolygiaethau ddiolch i'r bobl, y staff a'r partneriaid a roddodd o'u hamser i gyfrannu at yr arolygiad hwn.